Rhagoriaeth i bawb – Excellence for all

Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru

Her Majesty's Inspectorate for Education and Training in Wales

# Adroddiad ar

# Cylch Meithrin Ynys y Plant
**Riverside Community Centre**
**Castle Street**
**Builth Wells,**
**Powys**
**LD2 3BN**

**Dyddiad yr arolygiad: Hydref 2012**

**gan**


**Eifion R Morgan**


**ar ran**

**Estyn, Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru**

Yn ystod pob arolygiad, nod arolygwyr yw ateb tri chwestiwn allweddol:

**Cwestiwn Allweddol 1: Pa mor dda yw'r deilliannau?**
**Cwestiwn Allweddol 2: Pa mor dda yw'r ddarpariaeth?**
**Cwestiwn Allweddol 3: Pa mor dda yw'r arweinyddiaeth a'r rheolaeth?**

Mae arolygwyr hefyd yn rhoi barn gyffredinol ar berfformiad presennol y lleoliad a'i ragolygon gwella.

Yn yr arfarniadau hyn, mae'r arolygwyr yn defnyddio graddfa bedwar pwynt:

| **Barn** | **Yr hyn mae'r farn yn ei olygu** |
|---|---|
| **Rhagorol** | Llawer o gryfderau, gan gynnwys enghreifftiau arwyddocaol o arfer sy'n arwain y sector |
| **Da** | Llawer o gryfderau a dim meysydd pwysig sydd angen eu gwella'n sylweddol |
| **Digonol** | Mae cryfderau'n gorbwyso'r meysydd i'w gwella |
| **Anfoddhaol** | Mae'r meysydd pwysig i'w gwella yn gorbwyso'r cryfderau |

Cymerwyd pob rhagofal posibl i sicrhau bod y wybodaeth yn y ddogfen hon yn gywir adeg ei chyhoeddi. Dylid cyfeirio unrhyw ymholiadau neu sylwadau ynglŷn â'r ddogfen hon/cyhoeddiad hwn at:

Yr Adran Gyhoeddiadau
Estyn
Llys Angor, Heol Keen
Caerdydd
CF24 5JW

neu drwy anfon e-bost at cyhoeddiadau@estyn.gov.uk

Mae'r cyhoeddiad hwn a chyhoeddiadau eraill gan Estyn ar gael ar ein gwefan: www.estyn.gov.uk

**Ⓗ Argraffydd y Frenhines a Rheolwr Llyfrfa Ei Mawrhydi 2012: Gellir ailddefnyddio'r adroddiad hwn yn ddi-dâl mewn unrhyw fformat neu gyfrwng ar yr amod y caiff ei ailddefnyddio'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol. Rhaid cydnabod hawlfraint y deunydd rhagddywededig a rhaid nodi teitl yr adroddiad penodol.**

**Dyddiad cyhoeddi: 06/11/2012**

## Cyd-destun

Sefydlwyd Cylch Meithrin Ynys y Plant yn 2003 a than yn ddiweddar lleoliad y Cylch oedd Neuadd Sgowtiaid a Geidiau yng nghanol Llanfair ym Muallt.  Yn Ebrill 2006, yn dilyn cau`r cylch chwarae cyfrwng Saesneg, symudodd y lleoliad i Ganolfan Gymunedol Glan yr Afon yn y dre.

Mae`r lleoliad cofrestredig yn un ffyniannus sydd yn derbyn plant rhwng dwy a hanner a phedair oed.  Mae`r lleoliad ar agor am saith sesiwn yr wythnos am 38 wythnos o`r flwyddyn.  Ar hyn o bryd, mae 42 o blant ar y gofrestr, sy`n cynnwys 17 o blant dwy oed a 25 o blant tair oed sy`n derbyn darpariaeth addysgol sydd wedi`i hariannu.  Gall uchafswm o 18 o blant gael ei lleoli mewn un sesiwn.  Mae`r Cylch Ti a Fi yn cyfarfod yn y lleoliad am un sesiwn yr wythnos.

Daw pob un o`r plant tair oed o gartrefi sydd â`r iaith Saesneg yn brif iaith y cartref. Caiff yr ardal ei disgrifio fel ardal nad yw`n ffyniannus nac o dan anfantais economaidd a daw`r plant o amrywiaeth o gefndiroedd economaidd gymdeithasol. Nid oes unrhyw blant o gefndiroedd ethnig lleiafrifol.  Ar hyn o bryd nid oes unrhyw blant wedi`u nodi ag anghenion dysgu ychwanegol, er bod y lleoliad yn derbyn plant tebyg a wedi gwneud yn y gorffennol.

Mae`r lleoliad yn cynnwys cyntedd, cegin, cyfleusterau toiled ac ystafell helaeth gyda lle storio da.  Mae`r neuadd gymuned gerllaw`r ystafell chwarae ar gael hefyd ar ddyddiau penodol.  Mae gan y lleoliad fynediad at ardal fawr, ddiogel o borfa fel lle chwarae tu cefn i`r ganolfan gymunedol.

Mae`r arweinydd a`r ddau gynorthwy-ydd wedi ennill Cymhwyster Galwedigaethol Cenedlaethol, Lefel 3 mewn Gofal Plant ac Addysg ac mae aelod arall o staff yn gweithio ar hyn o bryd tuag at yr un cymhwyster.  Mae`r Feithrinfa yn ymrwymedig i gynnig amgylchedd diogel ac ysgogol i`r plant yn eu gofal.  Mae Pwyllgor Rheoli`r cylch chwarae yn gefnogol ac yn cymryd rhan weithredol yn y gwaith o redeg y lleoliad.  Mae`r holl gynorthwy-wyr yn gwneud cynnydd da wrth wella eu medrau llafar yn y Gymraeg.

Mae`r lleoliad yn dibynnu`n fawr ar godi arian ac arian.grantiau eraill o`r Awdurdod Lleol a Mudiad Ysgolion Meithrin.

Oherwydd i`r Cylch gael ei leoli o fewn canolfan gymunedol sy`n cael ei rhannu, caiff hyn effaith ar yr arddangosfeydd, dodrefn, storio adnoddau a hefyd ar weithgareddau penodol na chaniateir tu fewn, felly rhaid eu gwneud tu allan.

Mae`r cylch chwarae yn rhan o Bartneriaeth Datblygu`r Blynyddoedd Cynnar a Gofal Plant Powys.  Arolygwyd Cylch Meithrin Ynys y Plant ddiwethaf gan Arolygiaeth Gofal a Gwasanaethau Cymdeithasol Cymru (AGGCC) ym Mai 2011.  Nid oedd unrhyw argymhellion pwysig.  Mae`r lleoliad wedi`i arolygu yn flaenorol gan Estyn ym mis Tachwedd 2006.  Mae`r lleoliad wedi mynd i`r afael â`r argymhellion yn llwyddiannus.

## Crynodeb

| Perfformiad presennol y lleoliad | Da |
|---|---|
| **Rhagolygon gwella'r lleoliad** | **Da** |

### Perfformiad presennol

Nodweddion rhagorol

- Y cynllunio ar gyfer profiadau dysgu`r plant.

Nodweddion da

- Safonau cyflawniad a chynnydd y plant.
- Y ddarpariaeth ar gyfer sicrhau lles y plant.
- Ystod ac ansawdd yr addysgu, yn enwedig i ddatblygu iaith Gymraeg y plant.
- Y defnydd o asesu wrth gynllunio.
- Y ddarpariaeth ar gyfer gofal, cymorth ac arweiniad, gan gynnwys datblygiad ysbrydol, moesol, cymdeithasol a diwylliannol y plant.
- Ansawdd y rheolaeth a`r hunanarfarnu.
- Y bartneriaeth â rhieni a mudiadau proffesiynol.

### Rhagolygon gwella

Nodweddion da

- Ansawdd yr arweinyddiaeth ac ysbryd tim y staff.
- Y cofnod o hunanarfarnu a chynllunio ar gyfer gwelliant sydd wedi`i sefydlu`n dda.
- Bod yn agored i syniadau newydd.
- Hanes o welliant gan yr Awdurdod Lleol.
- Cydnabyddiaeth bod y Feithrinfa`n esiampl o arfer dda.

## Argymhellion

Mae angen i`r feithrinfa:

(i) Gynnal y pwyslais presennol ar ddatblygu gallu`r plant yn yr iaith Gymraeg.
(ii) Ymestyn y gweithdrefnau asesu sydd wedi`i hen sefydlu fel eu body n nodi`r camau nesaf yn y dysgu ar gyfer plant unigol a chynllunio yn unol â hynny.
(iii) Datblygu`r ardal tu allan er mwyn darparu ardal dan do i`r plant*

*Mae`r Feithrinfa wedi nodi hyn yn y cynllun datblygu.

### Beth sy'n digwydd nesaf?

Bydd y Cylch yn llunio cynllun gweithredu i ddangos sut y bydd yn mynd i`r afael â`r argymhellion.

Bydd Estyn yn gwahodd y Cylch i baratoi astudiaeth achos yn disgrifio`r arfer ardderchog a nodwyd yn yr arolygiad.

## Prif ganfyddiadau

| Cwestiwn Allweddol 1: Pa mor dda yw'r deilliannau? | Da |
|---|---|

**Safonau: Da**

Mae pob un o`r plant yn cyflawni safonau da ac yn gwneud cynnydd realistig ymhob maes dysgu. Mae`r plant yn gweithio`n ddiwyd ac yn cymryd rhan yn y gweithgareddau sy`n cael eu gosod ar eu cyfer am gyfnodau estynedig o amser. Mae`r plant yn hyderus yn y lleoliad sy`n eu galluogi i symud yn hyderus o un ardal chwarae i`r llall, gan ddewis eu hoff weithgaredd. Drwyddi draw, mae`r plant yn dangos dyfalbarhad a`r gallu i weithio`n annibynnol neu o fewn grŵp. Mae`r gweithgareddau sy`n cael eu harwain gan oedolion yn werthfawr iawn gan fod cwestiynau a sgwrsio yn datblygu geirfa a gallu`r plant yn yr iaith Gymraeg.

Mae pob un o`r plant yn caffael medrau newydd yn systematig ar draws pob maes dysgu. Mae gan bron bob plentyn fedrau gwrando da. Drwy ddyfalbarhad y staff, mae gallu`r plant yn yr iaith Gymraeg yn gwella`n gyflym. Mae`r plant yn ymateb i`r oedolion gan ddangos eu bod yn deall mwy o eiriau nag y gallant siarad. Mae pob un yn mwynhau caneuon Cymraeg, yn enwedig caneuon actol, ac yn hapus i gymryd rhan.

Mae`r rhan fwyaf o1`r plant yn dal llyfrau`n ofalus ac yn troi`r tudalennau`n briodol. Mae llawer yn gwybod y storïau. Mae`r rhan fwyaf o`r plant yn adnabod eu henwau ac wedi dechrau marcio a sgriblo`u henwau. Maen nhw`n deall rhai o swyddogaethau ysgrifennu.

Mae medrau rhifedd y plant yn datblygu`n dda. Maen nhw`n adnabod rhifau i 5 ac yn ymuno wrth gyfrif i 15. Maen nhw`n mwynhau canu rhigymau rhif, fel "Un banana, dau fanana..." mae`r rhan fwyaf o`r plant yn enwi siapiau dau ddimensiwn ac yn dechrau defnyddio iaith fathemategol fel bach/mawr a llai/mwy. Mae rhai o`r plant yn deall y cysyniad o fesur, fel "mesur tedi" ac wedi creu histogram yn dilyn archwiliad o sut maen nhw`n dod i`r ysgol.

Mae pob un o`r plant yn datblygu eu medrau TGCh fel defnyddio`r cyfrifiadur. Maen nhw`n cynhyrchu "lluniau" gan ddefnyddio eiconau`r cyfrifiadur ac yn dangos rheolaeth dda o lygoden y cyfrifiadur. Mae`r plant yn gyfarwydd â chamerau a ffonau digidol.
.

**Lles: Da**

Mae`r plant yn dangos eu bod yn mwynhau`r dysgu a chymryd rhan yn ngweithgareddau`r lleoliad. Mae`r holl blant yn llawn cymhelliant ac yn ymddwyn yn dda. Mae ganddynt yr hyder i weithio`n annibynnol ond yr un mor hapus i weithio mewn parau neu grwpiau bach. Maen nhw`n dangos goddefgarwch a pharch at ei gilydd.

Mae`r plant yn deall yr angen i gadw`n lân ac i olchi`i dwylo cyn amser byrbryd. Mae amser byrbryd yn achlysur cymdeithasol gwerthfawr lle mae`r plant yn helpu`i gilydd, yn hapus i eistedd wrth y bwrdd ac i fwynhau`r bwyd iach ar eu cyfer.

Caiff y plant eu parchu fel unigolion ac yn cael eu hannog i cymryd cyfrifoldeb, fel wrth osod matiau bwrdd ar gyfer byrbryd y bore.

Drwyddi draw, mae`r ethos yn y lleoliad yn dda iawn gydag ysbryd o gyd-fyw a chyd-weithredu er lles pawb.

| Cwestiwn Allweddol 2: Pa mor dda yw'r ddarpariaeth? | Da |
|---|---|

**Profiadau dysgu: Rhagorol**

Mae ansawdd y cynllunio ar gyfer profiadau dysgu`r plant yn rhagorol ac yn sicrhau cwricwlwm eang, cytbwys a pherthnasol yn seiliedig ar y Fframwaith ar gyfer Dysgu Plant. Caiff y cynllunio ei wneud ar y cyd ac yn darparu darpariaeth barhaus, darpariaeth uwch a thasgau â ffocws. Bob wythnos, mae`r arweinydd yn casglu barn y staff ac yn defnyddio`r wybodaeth hon i gynllunio cwrciwlwm ar gyfer yr wythnos i ddod. Mae`r cynllunio wedi`i selio ar chwe maes dysgu`r Cyfnod Sylfaen ac yn rhoi manylion o`r medrau i`w cynnwys. Mae asesiad y staff o fedrau unigol y plant yn ffurfio sail i raglen o`r medrau sydd wedi`i chynllunio , sy`n sicrhau bod y medrau`n cael eu datblygu`n gynyddol.

Mae`r cynllunio`n cynnwys gweithgareddau i gefnogi`r dysgu ac ymestyn y dysgu er mwyn darparu ar gyfer galluoedd gwahanol. Mae pob aelod o`r staff yn gwybod eu rôl ac yn cymryd cyfrifoldeb am ddau faes dysgu yn nhermau asesu cyflawniad y plant. Mae`r cofnodion hyn yn bwydo`r cynllunio ar gyfer yr wythnos ganlynol. Er bod y dull hwn o gynllunio yn golygu bod rhaid i`r staff fod yn wyliadwrus wrth asesu datblygiad y plant, ac yn golygu tipyn o fewnbwn o ran amser yr arweinydd, mae`n sicrhau dilyniant, parhad a gwaith sy`n gweddu`n dda i allu a chyflawniad blaenorol y plant. Mae nodi gofalus yn sicrhau bod pob maes dysgu yn cael sylw gyda phwyslais ar fedrau`r plant, yn enwedig datblygiad iaith. Cynllunir ar gyfer cydbwysedd da rhwng dysgu sy`n cael ei ddechrau gan blentyn a`i gyfeirio gan oedolyn, gan adael digon o hyblygrwydd i gynnwys syniadau a diddordebau`r plant. Drwyddi draw, mae hyn yn arfer ragorol.

Caiff darpariaeth ragorol ei gwneud ar gyfer datblygu medrau llafar y plant yn yr iaith Gymraeg. Caiff y profiadau siarad a gwrando`u cynllunio`n dda, ond nodwedd arbennig o dda yw hyrwyddiad o fedrau siarad y plant. Mae`r oedolion yn fodelau rôl da iawn a thrwy eu cwestiynu a`u rhyngweithio, caiff y plant eu trochi yn yr iaith. Mae`r cynllunio`n gosod pwyslais cryf ar waith llafar. Mae`r plant yn mwynhau canu caneuon Cymreig, yn enwedig caneuon actol, ac yn cael cyfleoedd da i wrando ar storïau yn y Gymraeg. Caiff traddodiadau a dathliadau Cymreig bwyslais yn y cynllunio.

Daw`r plant i ddeall rhai o swyddogaethau ysgrifennu – maen nhw`n adnabod eu henwau ac yn dechrau sgriblo eu henwau eu hun. Datblygir medrau rhifedd yn dda drwy gynllunio i ddefnyddio rhif ar draws y cwricwlwm, fel gemau rhif a chyfrif. Mae`r

gweithgareddau sy`n cael eu cynllunio`n ddyddiol yn sicrhau bod gan blant fynediad rheolaidd i`r cyfrifiadur ac offer digidol arall.

Mae`r plant yn gyfarwydd â deunyddiau ail-gylchu, fel papur, plastig a bwyd ar gyfer compostio.  Maen nhw`n defnyddio`r offer priodol heb gymorth.  Hyrwyddir amrywiaeth ddiwylliannol drwy ystyriaeth o bobl a diwylliannau eraill a thrwy ddathlu diwylliannau eraill fel Diwali.

**Addysgu:  Da**

Mae gan ymarferwyr ddealltwriaeth dda o ofynion y Cyfnod Sylfaen a thrwy profiad a hyfforddiant mae ganddynt wybodaeth a dealltwriaeth gyfredol o ddatblygiad plant. Nodwedd ragorol o`r addysgu yw`r berthynas sydd wedi ei sefydlu sy`n caniatáu i`r plant fod yn unigolion hamddenol a hyderus sy`n gallu gwneud y mwyaf o`r cyfloedd sydd wedi eu darparu ar eu cyfer.  Mae`r plant yn hapus i weithio`n annibynol am gyfnodau estynedig o amser gan wybod bod cymorth os oes ei angen.  Mae`r tasgau yn ennyn diddordeb llawn y plant.  Mae`r ymarferwyr yn adnabod y plant yn dda ac mae`r cwestiynu`n canolbwyntio`n dda ar gyfer datblygu medrau meddwl y plant.  Ar adegau, gellid rhoi mwy o bwyslais ar sicrhau bod tasgau yn cael eu gwahaniaethu`n ddigonol ac yn cyfateb â gallu ac oedran y plant.

Mae`r sesiynau yn mynd yn eu blaen ar gyflymdra bywiog a cheir cyd-bwysedd da rhwng gweithgareddau sy`n cael eu dewis gan y plentyn a`u cyfeirio gan oedolion. Mae`r gweithgareddau tu fewn a thu allan yn rhoi gweithgareddau heriol i`r plant.

Mae`r staff ei hun yn fodelau iaith dda a chaiff y plant eu trochi yn yr iaith Gymraeg yn ystod eu hamser yn y feithrinfa.

Mae`r holl staff yn cymryd rhan weithredol wrth asesu`r plant ac mae`u harsylwadau a`u syniadau yn cael eu cynnwys yn llawn wrth gynllunio i`r dyfodol. Maen nhw`n cael cyfarwyddiadau llawn am yr hyn sydd yn ddisgwyliedig ganddynt ac yn cyd-weithio`n dda fel tim.

Caiff yr holl blant eu hasesu`n rheolaidd a chofnodir y canlyniadau.  Mae hyn yn rhoi mesur cywir o gynnydd y plant.  Nodwedd nodedig a da iawn o`r asesu yw`r defnydd a wneir o`r deilliannau.  Mae`r cofnodion o gyflawniad y plant yn cael eu defnyddio`n wythnosol wrth gynllunio gwaith i`r wythnos nesaf ac mae hyn yn sicrhau bod gweithgareddau yn y dyfodol yn dangos dilyniant a pharhad ac yn cynnwys cefnogaeth a darpariaeth uwch.  Yn ogystal, mae`n sicrhau bod tasgau yn bodloni anghenion a diddordebau`r plant.

Er bod y gweithdrefnau asesu yn ganmoladwy iawn ac yn nodi`r hyn mae plant unigol wedi`u cyflawni, nid yw`n nodi`n ddigonol y camau nesaf yn y dysgu ar gyfer plant unigol neu grwpiau bach o blant fel bod tasgau priodol yn cael eu cynllunio, er enghraifft mewn iaith neu fathemateg.  Byddai hyn hefyd yn galluogi rhieni i gymryd rhan fwy gweithredol yn y cynnydd sy`n cael ei wneud gan eu plant.

**Gofal, cymorth ac arweiniad: Da**

Mae darpariaeth y lleoliad ar gyfer datblygu iechyd a lles plant, gan gynnwys eu datblygiad ysbrydol, moesol a chymdeithasol yn dda gydag agweddau da iawn.

Mae`r gweithgareddau`n canolbwyntio`n dda ar gynnal diddordeb y plant ac mae`r holl blant yn cymryd rhan weithredol yn ystod y sesiynau. Mae hyn, ynghŷd â`r strategaethau ymddygiad cadarnhaol sy`n cael eu defnyddio gan y staff, yn cynnal ymddygiad da ac amgylchedd dysgu positif. Caiff y plant eu hannog i gyd-weithio ac i ryngweithio â`i gilydd. Drwyddi draw, mae`r feithrinfa`n datblygu medrau personol a chymdeithasol yn effeithiol iawn.

Mae`r gweithgareddau o ddydd i ddydd yn llwyddo i feithrin gwerthoedd fel gonestrwydd, tegwch a pharch at y gwir. Mae pob un o`r plant yn gwahaniaethu rhwng yr hyn sy`n gywir ac anghywir ac yn gweithredu fel hyn. Mae`r plant yn dangos eu bod yn rhan o gymuned y feithrinfa ac yn dechrau gwneud penderfyniadau sy`n cael effaith ar eu bywyd yno.

Mae gan y Feithrinfa gysylltiadau da gyda gwasanaethau arbenigol gan gynnwys gwasanaethau cymdeithasol ac ymwelwyr iechyd. Mae cymorth proffesiynol wedi cael ac yn cael ei ddefnyddio i gefnogi plant yn ôl yr angen.

Mae polisïau a gweithdrefnau priodol ar waith i ddiogelu plant. Yr arweinydd yw`r person sydd â chyfrifoldeb am ddelio â materion amddiffyn plant a materion diogelu, ond mae`r holl staff yn ymwybodol o`r gweithdrefnau. Mae`r gweithdrefnau`n adlweyrchu Gweithdrefnau Amddiffyn Plant Cymru Gyfan 2008. Mae`r staff wedi derbyn yr hyfforddiant priodol.

Mae`r trefniadau sydd ar waith i gefnogi plant ag anghenion dysgu ychwanegol yn dda iawn. Er nad oes unrhyw blentyn yn y garfan bresennol wedi`i nodi ag ADY, mae dogfennaeth y Feithrinfa yn dangos sylwadau da a manwl yn ogystal â chefnogaeth o blant fel hyn yn y gorffennol. Roedd anghenion y plant wedi`u nodi`n glir. Roedd Cynlluniau Addysg Unigol yn fanwl ac yn nodi targedau ar gyfer gwelliant. Roedd cefnogaeth broffesiynol wedi`i defnyddio`n dda gan ymgynghori gyda rhieni yn rheolaidd. Roedd gan y plant hyn fynediad llawn i bob maes dysgu.

**Yr amgylchedd dysgu: Da**

Mae ethos gofalgar a chefnogol yn treiddio drwy`r lleoliad, ac mae`r holl blant, pa beth bynnag yw eu cefndir, yn cael eu gwerthfawrogi a`u parchu. Mae gan yr holl blant hawl gyfartal i`r cwricwlwm ac yn cael eu cefnogi`n dda gan oedolion.

Mae agwedd o oddefgarwch yn y feithrinfa ac mae`r staff a`r plant yn rhydd oddi wrth unrhyw ffurf o aflonyddwch neu ymddygiad gormesol. Mae gweithdrefnau cwyno ar waith ond nid ydynt wedi`u defnyddio.

Mae digon o ymarferwyr sydd â chymwysterau da ac yn brofiadol. Mae`r adnoddau yn gweddu`n dda i ofynion cwricwlwm y Cyfnod Sylfaen. Mae`r lleoliad, er ei fod yn cael ei ddefnyddio gan fudiadau eraill, yn addas gydag ardal fawr yn yr awyr agored sydd tu allan i`r brif neuadd. Nid oes ardal dan do tu allan na digon o lawr caled.

| Cwestiwn Allweddol 3: Pa mor dda yw'r arweinyddiaeth a'r rheolaeth? | Da |
|---|---|

**Arweinyddiaeth: Da**

Mae`r lleoliad yn dangos synnwyr cryf o ddiben, sy`n canolbwyntio`n dda ar roi`r ddarpariaeth addysgol posibl i`r plant. Mae`r staff yn deall eu rolau`n llawn ac yn cyflawni eu cyfrifoldebau. Mae`r arweinydd yn darparu`r feithrinfa â synnwyr clir o ddiben wedi`i selio ar gynllunio rhagorol ac ethos bositif o ddisgwyliadau uchel. Mae`r holl weithgareddau`n canolbwyntio ar anghenion y plant a disgwyliadau uchel sy`n cael eu gwireddu yn ymarferol. Mae cyfleodd sefydlu addas a chaiff gwerthuso ei ddefnyddio`n dda fel modd o arfarnu. Mae cysylltiadau da iawn wedi`u sefydlu gyda rhieni a gofalwyr.

Mae`r pwyllgor rheoli yn gefnogol iawn o`r Feithrinfa. Mae sawl aelod wedi bod ar y pwyllgor am beth amser ac yn deall eu rolau a chyflawni eu dyletswyddau cyfreithiol. Caiff aelodau`r pwyllgor eu hysbysu`n dda am berfformiad y lleoliad ac wedi bod yn weithredol wrth gymryd rhan i wneud penderfyniadau.

Mae`r lleoliad yn cymryd ystyriaeth dda o flaenoriaethau cenedlaethol a lleol, fel gweithredu cwricwlwm y Cyfnod Sylfaen a mentrau bwyta`n iach.

**Gwella ansawdd: Da**

Mae`r hunanarfarnu a`r cynllunio ar gyfer gwelliant wedi`i hen sefydlu ac wedi llwyddo i sicrhau bod y ddarpariaeth ar gyfer y plant wedi gwella`n gyson. Mae`r cofnodion yn dangos bod hunanarfarnu, dros y blynyddoedd, wedi nodi anghenion, sefydlu amserlenni ar gyfer gwelliant ac arfarnu deilliannau yn erbyn nodau ac amcanion. Mae hyn wedi bod yn broses barhaol a`r canlyniad yw darpariaeth o ansawdd da ar gyfer y plant. Ar hyn o bryd, mae cynlluniau ar waith i ddarparu ardal allanol dan do gyda llawr caled ar gyfer y plant. Bydd hyn yn werthfawr drwy alluogi`r plant i gael fwy o ddewis o weithgareddau yn ddyddiol. Nodwedd dda yw cyfranogiad y gymuned yn y datblygiadau hyn.

Mae`r holl ymarferwyr wedi bod yn weithredol mewn datblygiad proffesiynol ac yn cael eu cefnogi`n llawn gan yr arweinydd a`r pwyllgor rheoli. Mae effaith yr hyfforddiant yn cael eu harfarnu yn nhermau`r effaith ar gynnydd a lles y plant.

**Gweithio mewn partneriaeth: Da**

Mae cysylltiadau effeithiol yn bodoli gyda rhieni, gofalwyr a`r gymuned. Mae`r polisi drws agored yn galluogi rhieni, yn ôl yr angen, i setlo`u plant. Fodd bynnag, nid yw hyn yn digwydd yn aml gan fod y staff ar gael i groesawu`r plant a`u cyfarch yn serchog.

Mae`r lleoliad yn adrodd bod cysylltiadau da iawn gyda`r ysgol gynradd sy`n derbyn y plant.  Mae athrawes y Cyfnod Sylfaen yn ymweld â`r Feithrinfa ac mae`r plant yn cael cyfle i ymweld â`r ysgol cyn trosglwyddo.

Mae`r lleoliad wedi derbyn cefnogaeth werthfawr oddi wrth athrawes ymgynghorol yr Awdurdod Lleol a Mudiad Ysgolion Meithrin.

Yn ogystal, mae`r lleoliad wedi rhoi cyngor am gynllunio i leoliadau eraill ac yn cael ei adnabod gan yr Awdurdod Lleol fel esiampl o arfer dda.

**Rheoli adnoddau:  Da**

Mae`r lleoliad yn gwneud y defnydd gorau posibl o`i adnoddau a chaiff yr holl ymarferwyr eu defnyddio`n effeithiol.  Mae hyfforddiant yn cael ei ddefnyddio`n briodol i ddiweddaru staff ac mae arian wedi cael ei ddefnyddio`n dda i wella cyfleusterau.  Mae`r awyr agored yn cael ei ddefnyddio`n dda.

Drwyddi draw, mae`r lleoliad yn cynnig gwerth da am arian.

## Atodiad 1

**Adroddiad boddhad rhanddeiliaid**

**Ymatebion i’r holiadur i rieni**

Nid oes unrhyw sylwebaeth ar yr holiaduron i rieni oherwydd nifer fach yr ymatebion a gafwyd (llai na 10).

**Ymateb i drafodaethau gyda phlant**

Mae`r plant yn dangos drwy eu brwdfrydedd eu bod yn mwynhau dod i`r feithrinfa. Drwy sgwrsio, dywedodd y plant eu bod yn mwynhau`r gwahanol weithgareddau, yn enwedig defnyddio siapiau a glud i wneud rocedi.  Maen nhw`n chaware`n dda gyda`i gilydd ac yn gwneud ffrindiau.

## Atodiad 2

**Yr arolygydd cofnodol**

| | |
|---|---|
| Mr Eifion R Morgan | Arolygydd Cofnodol |

**Copïau o'r adroddiad**

Mae copïau o'r adroddiad hwn ar gael yn y lleoliad ac oddi ar wefan Estyn (www.estyn.gov.uk)

## Rhestr termau

| | |
|---|---|
| **AGGCC** | Mae Arolygiaeth Gofal a Gwasanaethau Cymdeithasol Cymru (AGGCC) yn isadran o'r Adran Gwasanaethau Cyhoeddus a Pherfformiad yn Llywodraeth Cymru. |
| **Athro ymgynghorol awdurdod lleol** | Mae'r athrawon hyn yn darparu cymorth, arweiniad a hyfforddiant cyson i leoliadau nas cynhelir sy'n darparu addysg i blant tair a phedair oed. |
| **Y Cyfnod Sylfaen** | Menter gan Llywodraeth Cymru sy'n anelu at ddarparu cwricwlwm cytbwys ac amrywiol i ddiwallu anghenion datblygiadol gwahanol plant ifanc 3 i 7 mlwydd oed |
| **Cymdeithas Darparwyr Cyn Ysgol Cymru (WPPA)** | Cymdeithas wirfoddol annibynnol sy'n darparu gofal plant ac addysg cyn ysgol yn y gymuned. |
| **Cymdeithas Genedlaethol Meithrinfeydd Dydd (NDNA)** | Mae'r gymdeithas hon yn anelu at wella datblygiad ac addysg plant yn eu blynyddoedd cynnar, trwy ddarparu gwasanaethau cymorth i aelodau. |
| **Y Gymdeithas Gwarchod Plant Genedlaethol (NCMA)** | Mae hon yn gymdeithas ag aelodaeth broffesiynol sy'n gweithio gyda gwarchodwyr plant cofrestredig i sicrhau gofal plant, chwarae, dysgu a chymorth teulu o ansawdd uchel yn lleol yn y cartref. |
| **Meysydd Dysgu** | Y rhain yw saith maes cwricwlwm y Cyfnod Sylfaen mewn lleoliadau cyfrwng Saesneg. (Nid yw'n ofynnol i leoliadau cyfrwng Cymraeg addysgu datblygu'r Gymraeg am mai dyma yw iaith y lleoliad yn barod.) Mae'r Meysydd Dysgu fel a ganlyn:<br>• datblygiad personol a chymdeithasol, lles ac amrywiaeth ddiwylliannol<br>• medrau iaith, llythrennedd a chyfathrebu<br>• datblygiad mathemategol<br>• datblygu'r Gymraeg<br>• gwybodaeth a dealltwriaeth o'r byd<br>• datblygiad corfforol<br>• datblygiad creadigol |
| **Partneriaeth Datblygu'r Blynyddoedd Cynnar a Gofal Plant (PDBCGP)** | Mae'r bartneriaeth awdurdod lleol hon yn cymeradwyo lleoliadau fel darparwyr addysg. Mae ganddi'r grym hefyd i dynnu cyllid yn ôl o leoliadau nad ydynt yn cydymffurfio ag amodau cofrestru'r bartneriaeth. |

| | |
|---|---|
| **Proffil asesu datblygiad plant y Cyfnod Sylfaen (PADP)** | Proffil asesu wrth fynd i mewn i'r Cyfnod Sylfaen; gofyniad statudol mewn ysgolion o Fedi 2011 ac mewn lleoliadau o Fedi 2012. |
| **Mudiad Meithrin** | Mudiad gwirfoddol, sy'n anelu at roi'r cyfle i bob plentyn ifanc yng Nghymru i elwa o wasanaethau a phrofiadau'r blynyddoedd cynnar trwy gyfrwng y Gymraeg. |